**Report No. 09/25**
**Audit & Corporate Services Review Committee**

## Report of Chief Executive

## Subject: Annual Audit Summary 2024

The Auditor General for Wales' Annual Audit summary shows the work completed since the last Annual Audit Summary, which was issued in February 2024. The audit summary forms part of the Auditor General for Wales' duties. The document is attached for Members' information.

**Recommendation**
**Members are asked to NOTE the Annual Audit Summary 2024.**

Background Documents
None

*(For further information, please contact Tegryn Jones)*

Archwilio Cymru
Audit Wales

# Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

## Crynodeb Archwilio Blynyddol 2024



Dyma ein crynodeb archwilio ar gyfer Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro. Mae'n dangos y gwaith a gwblhawyd ers y Crynodeb Archwilio Blynyddol diwethaf a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2024. Mae ein crynodeb archwilio'n rhan o ddyletswyddau Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Ceir rhagor o wybodaeth am y dyletswyddau hyn ar ein gwefan.

# Ynglŷn â'r Awdurdod Parc Cenedlaethol

## Rhai o'r gwasanaethau y mae'r Awdurdod yn eu darparu



## Rôl yr Awdurdod

Mae dibenion a dyletswydd yr Awdurdod yn sail i'r holl waith a wneir gan yr Awdurdod a dyma'r man cychwyn ar gyfer y cynlluniau a'r strategaethau y mae'n eu datblygu. Mae'r rhain wedi'u nodi yn Neddf yr Amgylchedd 1995 ac maent fel a ganlyn:

- **Dibenion Statudol** – gwarchod a gwella harddwch naturiol, bywyd gwyllt a threftadaeth ddiwylliannol y Parc Cenedlaethol; a hyrwyddo cyfleoedd i'r cyhoedd fwynhau a deall nodweddion arbennig y Parc Cenedlaethol.
- **Dyletswydd Statudol** – meithrin llesiant economaidd a chymdeithasol cymunedau sy'n byw yn y parc cenedlaethol.

**Ffeithiau allweddol**

Mae'r Awdurdod yn cynnwys 18 aelod sy'n cynrychioli'r canlynol:

- Penodeion Llywodraeth Cymru – 6
- Cyngor Sir Penfro – 12

Gwariodd yr Awdurdod £9.94 miliwn ar ddarparu gwasanaethau yn ystod 2023-24, o gymharu â £10.3 miliwn ar gyfer 2022-23.

**Ffeithiau allweddol**

Ar 31 Mawrth 2024, roedd gan yr Awdurdod £8.1 miliwn o gronfeydd ariannol defnyddiadwy o gymharu â £6.8 miliwn ar 31 Mawrth 2023. Mae hyn yn cyfateb i 81.2% o gyfanswm gwariant blynyddol yr Awdurdod ar wasanaethau, sef cynnydd o 67.7% ar 31 Mawrth 2023.

Gan ystyried incwm cysylltiedig â gwasanaeth, ar 31 Mawrth 2024, mae'r cronfeydd defnyddiadwy o £8.1 miliwn yn cynrychioli 136.8% o gost net gwasanaethau'r Awdurdod, sef cynnydd o 117.6% ar 31 Mawrth 2023.

Ar gyfer 2023-24, cynhyrchodd yr Awdurdod £4.0 miliwn o incwm cysylltiedig â gwasanaeth, sef 37.8% o gyfanswm ei gyllid cyffredinol. Ar gyfer 2022-23, y symiau cyfatebol oedd £4.3 miliwn a 47.2% yn y drefn honno.

# Dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol

## Gwnaethom gwblhau gwaith yn ystod 2023-24 i gyflawni'r dyletswyddau canlynol

- **Archwilio'r Cyfrifon**

  Bob blwyddyn, mae'r Archwilydd Cyffredinol yn archwilio datganiadau ariannol yr Awdurdod i wneud yn siŵr y rhoddir cyfrif priodol am arian cyhoeddus.

- **Gwerth am arian**

  Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn archwilio a yw'r Awdurdod wedi sefydlu trefniadau i gael gwerth am arian am yr adnoddau y mae'n eu defnyddio, a rhaid iddo fod wedi'i argyhoeddi ei fod wedi gwneud hyn.

- **Yr egwyddor datblygu cynaliadwy**

  Mae angen i gyrff cyhoeddus gydymffurfio â'r ddyletswydd datblygu cynaliadwy wrth bennu eu hamcanion llesiant a chymryd camau i'w cyflawni. Rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol asesu i ba raddau y maent yn gwneud hyn.

# Yr hyn a ganfuom

## Archwiliad o Gyfrifon 2023-24 Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

Bob blwyddyn, rydym yn archwilio datganiadau ariannol yr Awdurdod.

### Ar gyfer 2023-24:

- cyflwynwyd y datganiadau drafft i’w harchwilio ar 24 Gorffennaf 2024. Roedd hyn ar ôl y dyddiad cau a osodwyd gan Lywodraeth Cymru, sef 30 Mehefin 2024.
- roedd ansawdd y datganiadau drafft a gyflwynwyd i’w harchwilio yn rhesymol – nododd ein gwaith archwilio nifer fawr o wallau ac arweiniodd y gwallau hyn naill ai at ddiwygiadau i’r cyfrifon a/neu’r angen i ni wneud gwaith archwilio ychwanegol a phrofi sampl estynedig.
- rhoddodd yr Archwilydd Cyffredinol farn ddiamod gwir a theg ar ddatganiadau ariannol yr Awdurdod ar 31 Hydref 2024, cyn y dyddiad terfyn y cytunwyd arno gyda Llywodraeth Cymru sef 30 Tachwedd 2024.
- cafodd Datganiad Llywodraethu Blynyddol ac Adroddiad Naratif yr Awdurdod eu paratoi yn unol â Chod CIPFA a chanllawiau perthnasol. Roeddent hefyd yn gyson â’r datganiadau ariannol a baratowyd gan yr Awdurdod ac ein gwybodaeth am yr Awdurdod.
- gwnaed nifer o newidiadau i ddatganiadau ariannol yr Awdurdod a gododd o’n gwaith archwilio, a thynnwyd sylw’r Pwyllgor Archwilio at y rhain yn ein Hadroddiad ar yr Archwiliad o’r Datganiadau Ariannol ym mis Hydref 2024.
- cyhoeddodd yr Archwilydd Cyffredinol y dystysgrif a oedd yn cadarnhau bod yr archwiliad o’r cyfrifon ar gyfer 2023-24 wedi cael ei gwblhau.

## Gosod amcanion llesiant

Ym mis Tachwedd 2024, gwnaethom adrodd ar weithrediad yr egwyddor datblygu cynaliadwy gan yr Awdurdod wrth osod ei amcanion llesiant. Daethom i’r casgliad bod ‘yr Awdurdod wedi cymhwyso’r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth osod ei amcanion llesiant presennol ar sail ystod o ddata a gweithgarwch cydweithredol.’

Gwnaethom un argymhelliad yn ein hadroddiad i'r Awdurdod adolygu effeithiolrwydd ei drefniadau monitro perfformiad diwygiedig pan fyddant wedi'u hymgorffori'n llawn.

## Hyrwyddo mynediad i'r Parc Cenedlaethol

Ym mis Chwefror 2025, gwnaethom adrodd ar y trefniadau sydd ar waith gan yr Awdurdod i sicrhau gwerth am arian wrth hyrwyddo mynediad i'r Parc Cenedlaethol i grwpiau a dangynrychiolir. Daethom i’r casgliad bod ‘yr Awdurdod yn darparu amrywiaeth o weithgareddau i annog a gwella mynediad i grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol ond bod gwendidau yn ei ddull o gasglu data a darparu adnoddau’.

Gwnaethom dri argymhelliad ar gyfer yr Awdurdod. Roedd hyn yn cynnwys gwneud y defnydd gorau o'r dystiolaeth y mae'r Awdurdod eisoes yn ei chasglu i lywio ei waith cynllunio gweithgareddau ac i ystyried a yw wedi nodi'r holl bartneriaid posibl o'i ymarfer mapio

rhanddeiliaid. Gwnaethom hefyd argymell bod yr Awdurdod yn edrych ar gynllunio ei adnoddau yn y tymor hwy.

## Adroddiadau a chynhyrchion cenedlaethol yn 2024

Yn ogystal â gwaith lleol ym mhob awdurdod, bob blwyddyn rydym hefyd yn cynnal astudiaethau ar draws y sector llywodraeth leol i wneud argymhellion ar gyfer gwella gwerth am arian. Ers yr adroddiad gwelliant blynyddol diwethaf, rydym wedi cyhoeddi'r adroddiadau canlynol a allai fod o ddefnydd i'r Awdurdod, sydd ar gael ar ein gwefan:

| **Teitl yr adroddiad** | **Dyddiad cyhoeddi a dolen i'r adroddiad** |
|---|---|
| Cynaliadwyedd Ariannol Llywodraeth Leol (gan gynnwys Offeryn Data Cynaliadwyedd Ariannol) | Rhagfyr 2024 |
| Llywodraethu Awdurdodau Tân ac Achub | Medi 2024 |
| Digidol yn ôl dyluniad? – Gwersi o'n hadolygiad o strategaethau digidol ar draws cynghorau yng Nghymru | Awst 2024 |
| Defnyddio gwybodaeth am berfformiad: safbwynt defnyddwyr gwasanaethau a deilliannau – Crynodeb o ganfyddiadau ein hadolygiad yng nghynghorau Cymru | Gorffennaf 2024 |
| Llywodraethu Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol | Ebrill 2024 |
| O ymdrin â heriau wrth iddynt godi i ddiogelu at y dyfodol – yr her i wasanaethau cyhoeddus Cymru | Chwefror 2024 |

Mae’r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol ar y llywodraeth, ac fe’i penodwyd gan Ei Mawrhydi’r Frenhines. Mae’r Archwilydd Cyffredinol yn gwneud ei waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sy’n fwrdd statudol a sefydlwyd at y diben hwnnw ac i fonitro a chynghori’r Archwilydd Cyffredinol. Caiff Swyddfa Archwilio Cymru ei dwyn i gyfrif gan y Senedd.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, gan gynnwys awdurdodau unedol, yr heddlu, awdurdodau tân ac achub, parciau cenedlaethol a chynghorau cymuned. Mae hefyd yn cynnal astudiaethau o werth am arian mewn llywodraeth leol, yn asesu cydymffurfiaeth â’r gofynion sy’n weddill o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 a gall gynnal arolygiadau arbennig dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

Y tu hwnt i lywodraeth leol, yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilydd allanol Llywodraeth Cymru a'r cyrff cyhoeddus a noddir ganddi ac sy'n gysylltiedig â hi, Comisiwn y Senedd a chyrff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru.

Archwilio Cymru yw’r enw ymbarél ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, sy’n endidau cyfreithiol ar wahân â’u swyddogaethau cyfreithiol eu hunain, fel y disgrifir uchod. Nid yw Archwilio Cymru yn endid cyfreithiol.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Mae’r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.